

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

Adolygiad Thematig o Offthalmoleg Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2015/16

Allwedd Swyddogion Arweiniol – Rheolwr Cyffredinol Gwella Gwasanaethau (GMSI), Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau (SDM), Rheolwr Gwasanaethau (SM), Cynghorydd Optometrig (OA), Rheolwr Gwasanaeth Golwg Gwan (LVSM), Uwch-reolwr Nyrsio (SNM).

	Canfyddiad Adroddiad AGIC	Gwybodaeth am Argymhelliad AGIC	Datganiad o sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIP) - Ionawr 2017.	Y Gyfarwyddiaeth Offthalmoleg – Cynllun gweithredu
1	Materion sy'n ymwneud â'r broses o atgyfeirio cleifion (Atgyfeirio Cleifion – Y Broses Atgyfeirio)	Mae'n rhaid i bob parti (Llywodraeth Cymru, NWIS, Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmoleg a Byrddau Iechyd) gydweithio i gyflwyno system gofnodi/atgyfeirio cleifion electronig gan optometryddion yn uniongyrchol i ofal eilaidd.	Bydd cynrychiolwyr BIP gan gynnwys y rhai o'r Adran Wybodaeth, Cynghorydd Optometrig a Rheolwyr Gweithredol yn mynychu gweithdy Llywodraeth Cymru ar y mater hwn ar 4 Ionawr 2017. O'r uchod canfyddir ffordd ymlaen y cytunir arni a'i chyflwyno i Fwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmig Cymru (WOPCB) ar 11 Ionawr 2017.	Mynychodd cynrychiolwyr BIP gyfarfod Llywodraeth Cymru ynghylch atgyfeirio electronig a chofnodion cleifion electronig ehangach e.e. er mwyn rhoi cymorth clinigol rhithiwr gwirioneddol i gydweithwyr anfeddygol bydd yn rhaid cael EPR addas at ei ddiben (sy'n cynnwys mynediad ar unwaith i'r holl ddata mewn fformat digidol). Byddwn bellach yn gweithio gyda WOPCB i ddatblygu cynllun gweithredu i'w ddatblygu yn 2017. Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM / OA.
2	Amlygodd Arolwg Offthalmoleg Cenedlaethol y CHC y ffaith nad oedd rhai cleifion yn teimlo eu bod wedi cael digon o	Dylai Byrddau Iechyd drwy Grwpiau Gofal Llygaid Lleol weithio gydag optometryddion er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael digon o wybodaeth am y rheswm dros eu hatgyfeirio i ofal eilaidd a sicrhau bod pob claf yn teimlo y gwrandewir arno a'i fod yn rhan o'r broses o wneud	Cyflwyno a chofnodi adolygiad CHC ym Mhwyllgor Sicrhau Ansawdd Diogelwch a Phrofiad BIP (QSEAC) ar 13 Rhagfyr 2016. Cynhwysir argymhellion o'r adolygiad hwn yng Nghynllun Gweithredu Offthalmoleg BIP Integredig newydd ar gyfer 2017/18.	Rhoi Cynllun Gweithredu Offthalmoleg BIP Integredig newydd ar gyfer 2017/18 ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu gofal. Ionawr 2017 – Bydd tîm gweithredol yn archwilio pob safle ac yn sicrhau bod digon o ddeunydd darllen ar gael yn rhwydd i bob claf

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

	wybodaeth am y rheswm dros eu hatgyfeirio. (Atgyfeirio Cleifion – Y Broses Atgyfeirio)	penderfyniadau ynghylch eu gofal.	Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cyfeirio'n benodol at wella gwybodaeth am atgyfeirio cleifion ar draws pob cyflwr clinigol rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.	Ebrill 2017 – Byddwn yn dechrau casglu adborth / arolygon cleifion ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir gan y gwasanaeth. Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SNM / SM.
3	Ansawdd yr atgyfeiriadau a anfonir at lwybr mynediad cyflym (Atgyfeirio Cleifion – Ansawdd yr Atgyfeiriadau)	A) Dylai Byrddau Iechyd ystyried dulliau o fireinio atgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymuno â'r llwybr gofal mwyaf priodol mewn ffordd amserol ac effeithiol, gan osgoi ymweliadau diangen. B) Dylai Byrddau Iechyd ystyried darparu digwyddiadau/deunydd addysgol i godi ymwybyddiaeth ymysg optometryddion a staff perthnasol eraill o lwybrau atgyfeirio lleol. C) Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod adborth yn cael ei ddarparu i optometryddion pan fo angen ynglŷn ag ansawdd yr atgyfeiriadau a anfonir er mwyn sicrhau eu bod yn dysgu.	A) Caiff gwasanaeth Brysbennu Optometrig newydd ei sefydlu ym mis Ionawr 2017 er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymuno â'r llwybr gofal mwyaf priodol. B) Gan ychwanegu at y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd yn ystod 2016, cytunwyd ar raglen ffurfiol â'r Pwyllgor Optometrig Rhanbarthol (ROC) a phob un o'n Grwpiau Clwstwr meddyg teulu ar gyfer 2017/18. C) Bydd yr adborth hwn yn ffurfio rhan o'r Gwasanaeth Brysbennu Optometrig newydd a fydd yn monitro ansawdd yr atgyfeiriadau a wneir gan gynnwys y rhai nad oes angen iddynt gael eu hatgyfeirio i'r Gwasanaeth Ysbyty Llygaid (HES).	Ionawr 2017 – Rydym bellach wedi sefydlu rhwydwaith o optometryddion partner i gefnogi'r fenter hon. Mawrth 2017 – dyddiad Mynd yn Fyw?? Mawrth 2017 – Byddwn yn sefydlu adborth ac archwiliadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod partneriaid optometreg yn rhan lawn o gynllunio adrannol Mawrth 2017 – cysylltu â grwpiau clwstwr meddyg teulu o fewn Gofal Sylfaenol i sicrhau adborth a chyfraniad Gorffennaf 2017 – Adolygu'r cynllun peilot a'r argymhellion ar gyfer integreiddio hirdymor yn y dyfodol Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / SDM / OA.
4	Diffyg darparu adborth i	A) Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod adborth ar ddiagnosis a	A) Bydd hyn yn rhan o drafodaethau'r system cofnodi cleifion electronig newydd.	Mawrth 2017 – Byddwn yn sefydlu grŵp cynghori optometreg er mwyn helpu i ddatblygu

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

	optometryddion ar ôl atgyfeirio a rhyddhau cleifion (Atgyfeirio Cleifion – Cyfathrebu ar ôl atgyfeirio) (Rhyddhau cleifion – Ansawdd y wybodaeth)	chynllun triniaeth yn cael eu darparu i optometryddion atgyfeirio ar ôl pob atgyfeiriad i'r gwasanaeth, gan gynnwys p'un a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth golwg gwan. B) Mae'n rhaid i optometryddion ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio briodol a sicrhau bod enw a chyfeiriad y practis yn ddarllenadwy. C) Mae'n rhaid i fyrddau iechyd/llywodraeth Cymru sicrhau y caiff systemau eu cyflwyno i wella faint o wybodaeth sydd ar gael i optometryddion o ran y cleifion a gafodd eu rhyddhau o ofal eilaidd.	B) Yr Optometryddion yn datblygu'r broses o safoni'r holl ddogfennau a ddefnyddir gan gynnwys ffurflenni atgyfeirio a chanlyniad. C) Ar gyfer pob claf 'Intravitreal' a ryddhawyd anfonir copi o'r llythyr rhyddhau a'r grid amser at optometrydd penodedig y cleifion. Mae'r BIP hefyd wedi sicrhau cymorth gan Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn ystod y broses hon.	cynllun gweithredu EPR Mehefin 2017 – Archwilio ansawdd a gwerth rhannu dogfennau ag optometryddion. Gorffennaf 2017 – Datblygu cynllun gweithredu er mwyn gweithredu ar ganfyddiadau'r archwiliad uchod. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / SDM / OA.
5	Mae'r CHC yn cofnodi pryderon ynghylch diffyg darparu gwybodaeth o fewn gofal eilaidd cyn triniaeth (Atgyfeirio Cleifion – Cyfathrebu ar ôl atgyfeirio)	(A) Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod cleifion yn cael digon o wybodaeth am eu cyflwr a'r cynllun gofal arfaethedig cyn unrhyw ymchwiliad neu driniaeth. Dylai hyn gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yng nghanllawiau'r CMC ar ganiatâd ar sail gwybodaeth.	A) Cytunwyd ar y broses o gael gwybodaeth gyda chaniatâd bellach ar draws y rhanbarth yn dilyn 'never events' a gofnodwyd fel Digwyddiad Anffafriol Difrifol i Lywodraeth Cymru.	Chwefror 2017 - Cynnal archwiliad cydsynio Cynhelir archwiliadau misol bellach er mwyn canfod unrhyw ardaloedd neu staff nad ydynt yn cydymffurfio â gweithdrefnau cydsynio y cytunwyd arnynt Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM
6	Pryderon ynghylch	A) Dylai Llywodraeth Cymru	A) Wrth aros am ganllawiau Llywodraeth	Chwefror 2017 – Byddwn yn sefydlu gweithgor

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

	monitro set cleifion dilynol (Amserlen y Driniaeth – Targedau)	sicrhau bod Systemau Gweinyddu Cleifion yn gallu darparu data ar y clinigydd a argymhellwyd yn y bwch dilynol a'r bwch dilynol gwirioneddol gan lwybr gofal. B) Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu i'r rhai (cleifion newydd neu ddilynol) sydd â'r angen iechyd mwyaf i ddechrau, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael. C) Mae'n rhaid i dimau clinigol gofnodi'r drefn ddilynol a ddewisir yn eglur ar gyfer pob achos. Dylid cymhwyso hyn yn gyson yn unol â'r protocolau y cytunwyd arnynt. Dylid hysbysu'r claf am unrhyw newid i'r cynllun.	Cymru ar y mater hwn yn lleol mae'r BIP yn dibynnu ar systemau llaw i gasglu'r data hwn. B) Mae'r mater o flaenoriaethu clinigol yn fater sydd angen dull cyson ledled Cymru. Dechreuwyd trafod y broses o ddatblygu'r mater hwn yn genedlaethol eisoes yn WOPCB. C) Mae'r ffurflenni canlyniadau yn nodi'r cyflwr clinigol a'r drefn ddilynol yn eglur yn unol â'r protocolau clinigol y cytunwyd arnynt.	o fewn yr adran i drafod y pryderon a godwyd a datblygu cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod proses fonitro fwy cadarn ac effeithiol ar gael. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / SM
7	Diffyg cofnodi digwyddiadau sy'n ymwneud â pholisi niwed i gleifion Llywodraeth Cymru (Cofnodi digwyddiadau)	A) Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod dulliau wedi'u sefydlu i adolygu'r broses o gofnodi digwyddiadau er mwyn canfod patrymau posibl sy'n rhybuddio'n gynnar ynghylch methiannau mwy difrifol i'r system.	A) Mae'r BIP yn defnyddio system gofnodi Datix i adolygu achosion o ddigwyddiadau mewn partneriaeth â'r Tîm Gwella Sicrwydd Ansawdd Lleol. Cesglir yr adroddiadau hyn a'u cofnodi'n fisol gan yr Adran Pryderon Cleifion a'u cyflwyno i'r gwasanaeth i'w hystyried a'u trafod mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol (MDT) HES.	Cynhelir cyfarfodydd MDT yn fisol gyda'r holl staff clinigol er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu dysgu a'u gweithredu'n gyflym er mwyn atal digwyddiad DATIX pellach Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

		B) Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau ar adegau pan fydd digwyddiad yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â niwed i gleifion, eu bod yn cael eu cofnodi fel Digwyddiad Anffafriol Difrifol (SUI's).	B) Mae'r BIP yn cydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru gan gofnodi 'never events' fel SUI pan fydd achosion o'r fath.	
8	Diffyg gallu/breuder gwasanaethau oherwydd gorddibyniaeth ar ymgynghorwyr. Materion yn ymwneud â diffyg gallu, recriwtio a buddsoddi mewn gwasanaethau. (Triniaeth – Gallu)	A) Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ddatblygu cynlluniau gweithlu rhagweithiol sy'n ceisio rhoi sylw i unrhyw ddiffyg yng ngallu'r gwasanaeth presennol ac ar gael i liniaru'r risgiau i ofal cleifion. Dylai'r cynlluniau hyn geisio manteisio ar allu i'r eithaf drwy ddefnyddio sgiliau'r staff meddygol ac anfeddygol sydd ar gael yn y ffordd fwyaf effeithiol, yn ogystal â'r lle/cyfleusterau sydd ar gael. B) Mae'n rhaid i fyrddau iechyd ystyried ffyrdd o weithio'n agosach gyda chydweithwyr gofal sylfaenol. Er enghraifft, darparu offer (a hyfforddiant) i bractisau optometreg er mwyn iddynt allu mireinio'r broses o atgyfeirio a/neu	A) Datblygu cynllun gweithlu BIP yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth diogel a chynaliadwy. Mae'r cynllun ei hun yn hyrwyddo gwasanaeth integredig gan wneud defnydd effeithiol o staff anfeddygol ychwanegol (rolau Nyrs all roi Pigiadau), Optometryddion yn yr Ysbyty a'r Gymuned a Thechnegwyr Offthalmig. Cyfeirir hefyd at wella ac ymestyn yr amgylchedd clinigol o fewn lleoliadau Gofal Sylfaenol yn ogystal ag Eilaidd. B) Bydd y BIP yn ystod 2017/18 yn noddï hyfforddiant Optometryddion mewn Glawcoma, Retina Meddygol a Phresgripsiynu'n Annibynnol. Bydd y BIP hefyd yn darparu lleoliadau o fewn HES fel rhan o'r hyfforddiant hwn er mwyn meithrin cysylltiadau cryfach â Gofal	Ionawr 2017 Datblygu cynllun gweithredu strategol gan ddefnyddio data gallu a galw deilliedig i ddatblygu cynllun cynaliadwy wrth symud i mewn i flwyddyn ariannol 2017/18 Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM Chwefror 2017 – Byddwn yn sefydlu perthynas weithio agosach â'r tîm Gofal Sylfaenol er mwyn sicrhau gwell cydweithrediad a chynllunio ar y cyd. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / OA.

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

		asesiadau ar gleifion sefydlog. Mae'n rhaid gwneud hyn mewn ffordd gynlluniedig a strategol dan reolaeth y bwrdd iechyd.	Sylfaenol. Mae'r BIP, fel y nodwyd yng nghanfyddiadau adroddiadau'r AGIC, eisoes yn gweithio'n agos gydag Optometryddion er mwyn rheoli ac asesu cleifion sefydlog mewn Gofal Sefydlog yn ogystal ag Ysbytai. Ceir cynlluniau hefyd i ddarparu camerâu Kowa i Optometryddion fel rhan o ddatblygu clinigau rhithwir ar draws y rhanbarth.	
9	Dylai byrddau iechyd ddysgu o brofiadau yn dilyn y cynnydd a wnaed mewn ardaloedd eraill (Triniaeth – Mentrau i wella Gallu)	A) Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau eu bod yn cysylltu'n llawn â'r Bwrdd Gofal Offthalmoleg wedi'i Gynllunio er mwyn cynorthwyo'r broses o ddysgu a rennir gan/gyda staff mewn ardaloedd eraill. B) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried p'un a oes angen datblygu dulliau ymhellach er mwyn annog dysgu a rennir rhwng byrddau iechyd yn ogystal â dulliau mwy integredig er mwyn rhoi sylw i themâu/materion cyffredin a brofir ledled Cymru. Er enghraifft, cyflwyno pigiadau anfeddygol.	A) Mae'r BIP yn cysylltu'n llawn â'r WOPCB gyda chymorth cyfarfodydd Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio lleol a sefydlwyd ym mis Medi 2016. Mae'r cyfarfodydd hyn yn galluogi'r broses o rannu arfer da yn genedlaethol ac yn lleol. B) Byddai'r BIP yn croesawu dulliau pellach i annog dysgu a rennir.	Yn fisol 2017 – Rydym bellach wedi sefydlu byrddau gofal cynlluniedig lleol mewn Offthalmoleg sy'n bwydo cyfarfodydd WOPCB. Gallwn bellach ymateb a gweithredu mentrau o fewn amserlen gyflymach. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / SDM.

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

10	Pwysigrwydd rôl cydgysylltydd AMD (Staff Cymorth Gwasanaethau – Cydgysylltwyr AMD)	(A) Oherwydd gofynion y rôl a phwysigrwydd darparu dilyniant mewn gwaith cyflenwi, dylai'r Byrddau Iechyd ystyried p'un a yw un Cydgysylltydd AMD yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal iechyd.	A) Ers mis Medi 2016 mae'r BIP bellach wedi sefydlu tri Chydgysylltydd AMD (un ym mhob sir) er mwyn sicrhau dilyniant mewn gwaith cyflenwi.	Gweithredwyd ym mis Medi 2016
11	ECLO – diffyg defnyddio'r rôl gan staff eraill (Staff Gwasanaethau Cymorth – Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)	(A) Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod y staff i gyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth ECLO lleol sydd ar gael, gan sicrhau bod cyngor a chymorth perthnasol ar gael i gleifion.	(A) Bydd y BIP yn ail-lansio'r gwasanaeth ECLO presennol a ddarperir gan RNIB a Sight Cymru er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael.	Mawrth 2017 – Byddwn yn ail-lansio gwasanaethau ECLO ar draws BIPHD Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM.
12	ECLO – gallu/gwaith cyflenwi Cyfyngedig (Staff Gwasanaeth Cymorth – Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)	Dylai Byrddau Iechyd sicrhau bod ECLO ar gael ar gyfer clinigau gofal llygaid drwy'r amser a dylid ystyried p'un a yw un ECLO yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	Mae'r BIP wedi cynnwys cymorth ECLO ychwanegol yn ei gynllun gweithlu Gofal Llygaid ar gyfer 2017/18 er mwyn sicrhau bod digon ohonynt ar gael ar draws y rhanbarth.	Chwefror 2017 - Gan ddibynnu ar yr arian sydd ar gael ac a ddyrennir byddwn yn chwilio am ffyrdd o gynorthwyo'r broses o gynyddu'r defnydd a wneir o allu ECLO. Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM.
13	Codwyd pryderon gan y staff ynghylch diffyg sefydlu prosesau i gyflwyno sylwadau/awgrymiadau i reolwyr y bwrdd iechyd.	Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod dulliau wedi'u sefydlu er mwyn caniatáu i'r staff i gyd godi unrhyw bryderon/awgrymiadau a allai fod ganddynt i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth. Dylai'r broses hon sicrhau bod adborth yn cael ei darparu i unigolion yn y drefn arferol.	Cyflwynodd y BIP fel rhan o adolygiad Offthalmoleg mewnol gyfarfodydd MDT rheolaidd ym mhob uned HES o fis Ionawr 2017 ymlaen. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfle i'r staff godi pryderon / awgrymiadau i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth a allai fod ganddynt.	Yn fisol 2017 – Byddwn yn cynnal cyfarfodydd tîm llawn yn fisol er mwyn sicrhau bod y staff i gyd yn rhan llawn o weithredu'r adran yn ddiogel ac yn broffesiynol. Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM.

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

	(Staff Cymorth Gwasanaethau – Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid)			
14	Angen mwy o eglurder o ran esblygu rôl optometryddion (Rôl optometryddion)	Er mwyn gallu defnyddio optometryddion yn fwy effeithiol, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru roi eglurder i fyrddau iechyd ynghylch trefniadau Indemniad, adnoddau a chyllid, hyfforddiant/cymwysterau a dulliau cyfathrebu.	Byddai'r BIP yn croesawu eglurder o'r fath ar y materion hyn gan fod y trefniadau hyn yn sail i Gytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol rhwng y BIP a'r optometryddion ar hyn o bryd. Mae'r cytundeb hwn yn cynorthwyo'r HES mewn lleoliadau Sylfaenol ac mewn Ysbytai.	Dylid gweithredu arno ar ôl derbyn canllawiau mwy eglur. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / OA.
15	Mae angen defnyddio optometryddion ychwanegol i gynyddu gallu (HDHB) (enghraifft) a lleihau'r baich ar ofal eilaidd. (Defnyddio optometryddion)	Dylai byrddau iechyd ystyried defnyddio optometryddion ychwanegol i gynyddu'r gallu sydd ar gael a lleihau'r baich ar ofal eilaidd. Bydd angen i Fyrddau Iechyd sicrhau y caiff materion ynghylch trefniadau indemniad, adnoddau a chyllid, hyfforddiant a chyfathrebu eu hegluro i optometryddion.	Ar ôl i WG ddarparu'r eglurder angenrheidiol ar drefniadau Indemniad, adnoddau a chyllid, bydd y BIP yn ymestyn rôl optometryddion ymhellach i gefnnogi HES ar draws yr holl gyflyrau clinigol priodol.	Dylid gweithredu arno ar ôl derbyn canllawiau mwy eglur Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / OA.
16	Ni chaiff cleifion eu hatgyfeirio bob amser i gael eu hasesiad golwg gwan cychwynnol gan staff gofal eilaidd.	Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa am bwysigrwydd atgyfeirio pob claf cymwys at optometrydd i gael asesiad golwg gwan.	Cynhelir y broses i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth golwg gwan presennol er mwyn targedu staff gofal eilaidd newydd a phresennol yn ystod mis Ionawr 2017.	Mawrth 2017 – Caiff yr ymgyrch ymwybyddiaeth ei lansio ar draws y tîm offthalmoleg gofal Sylfaenol a gofal eilaidd i godi ymwybyddiaeth Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / LVSM

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

	(Defnyddio optometryddion)			
17	Materion sy'n ymwneud â pherthynas wael rhwng staff gofal sylfaenol ac eilaidd gan effeithio ar y cynnydd a wneir i ddatblygu gwasanaethau (Perthynas Gofal Sylfaenol ac Eilaidd)	Mae'n rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod y staff perthnasol yn cysylltu â'r Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd lleol. Dylai'r grŵp gyfarfod yn rheolaidd ac aelod o'r tîm gweithredol yn gadeirydd arno. Un o'i nodau allweddol yw gwella'r berthynas weithio rhwng staff gofal sylfaenol ac eilaidd er mwyn meithrin mentrau cydweithio.	Mae cylch gorchwyl presennol Grŵp Gofal Llygaid y BIP ar fin cael eu hadolygu yn unol â'r argymhellion a wnaed yn adroddiad AGIC (gan gynnwys CHC a chynrychiolaeth o'r trydydd sector) yn ei gyfarfod nesaf ar 17 Chwefror 2017.	Chwefror 2017 – Trafod a chytuno ar gylch gorchwyl newydd yn ystod y cyfarfod. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI.
18	Nid oedd gan BIP Betsi Cadwaladr gynghorydd optometrig mewn swydd ar adeg ein hadolygiad (Perthynas Gofal Sylfaenol ac Eilaidd)	Mae'n rhaid i BIP Betsi Cadwaladr sicrhau y caiff cynghorydd optometrig parhaol ei recriwtio i'r swydd yn unol â gofynion WG.	Mae gan y BIP gynghorydd optometrig yn y swydd.	Amherthnasol
19	Codwyd pryderon ynghylch gwahanol gynghorwyr yn defnyddio gwahanol feini prawf, ac felly'n golygu bod rhai cleifion yn cael eu dilyn yn ddiangen neu'n cael eu	Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd sicrhau bod gan y gwasanaeth AMD bolisi sy'n amlinellu'r meini prawf ar gyfer rhyddhau cleifion AMD 'gwlyb' yn unol â Chanllawiau'r Coleg Brenhinol. Y nod yw sicrhau nad yw cleifion yn aros yn y gwasanaeth yn fwy nag sydd ei angen. Manteisio i'r eithaf ar allu i'r cleifion sy'n fwyaf tebygol o elwa. Gall ymlynu at y polisi	Bu i'r BIP enwi carfan o gleifion, sy'n addas i gael eu rhyddhau, yn enwedig y rhai na chawsant eu trin am 12 mis neu fwy. Anfonir copi o'r llythyr rhyddhau a'r grid amsler at optometrydd penodedig cleifion ar gyfer pob claf a gaiff ei rhyddhau. Mae'r BIP hefyd wedi sicrhau cael cymorth Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid yn ystod y	Mawrth / Ebrill 2017 – Byddwn yn cynnal adolygiad o'r holl gleifion er mwyn sicrhau bod cynghorwyr yn defnyddio dull mwy cyson ar gyfer y meini prawf. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI.

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

	trin heb fawr o fudd. (Rhyddhau Cleifion – Meini prawf)	ffurfio rhan o'r archwiliad gwasanaeth blynyddol.	broses hon.	
20	Systemau TG annigonol i gadw data defnyddiol. Diffyg ymwybyddiaeth o ddata ar allu a galw. (Systemau Rheoli Gwybodaeth – cynllunio)	Mae'n rhaid gwella'r systemau rheoli gwybodaeth o fewn byrddau iechyd er mwyn gallu cyfleu data ar allu a galw (perfformiad) er mwyn gallu cynllunio gweithlu mwy gwybodus a sicrhau bod yr adnoddau a ddarperir yn seiliedig ar anghenion cleifion.	Gwella'r ffordd o gael data yw un o flaenoriaethau'r BIP gan sicrhau ein bod yn darparu ystadegau cywir i WG yn ogystal ag WOPCB. Mae'r broses o gofnodi cyflwr clinigol, a gyflwynwyd yn ffurfiol ym mis Hydref 2016, eisoed wedi gwella safon y wybodaeth angenrheidiol sydd ar gael er mwyn gallu cael data ar allu a galw.	Chwefror / Mawrth 2017 – Byddwn yn adolygu natur y data rydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Ceir meysydd pendant i'w gwella a drafodir â'r tîm perfformiad. Swyddog(ion) Arweiniol – SDM / SM.
21	Materion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth (Systemau Rheoli Gwybodaeth – rhannu gwybodaeth)	Mae'n rhaid gwneud gwella mynediad at/rhannu gwybodaeth am gleifion o fewn ardaloedd y bwrdd iechyd er mwyn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau.	Bu i'r BIP lofnodi cytundeb er mwyn rhannu gwybodaeth ar draws gofal sylfaenol ac eilaidd.	Mawrth 2017 cynllunio gwaith pellach i wella'r adborth rhwng Gofal Eilaidd a Gofal Sylfaenol Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / OA.
22	Diffyg ymwybyddiaeth gyhoeddus o ran gofal llygaid cyffredinol (Ymwybyddiaeth Gyhoeddus)	Mae angen i Lywodraeth Cymru, lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau Iechyd ystyried sut y gellir sicrhau bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd archwiliadau llygaid rheolaidd, materion gofal llygaid cyffredinol, yn ogystal â'r symptomau i'w cofio sy'n	Byddai'r BIP yn croesawu'r cyfle i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd archwiliadau llygaid rheolaidd mewn cydweithrediad â LIC ac lechyd Cyhoeddus Cymru. Yn y cyfamser bydd y BIP yn cynnal mentrau codi ymwybyddiaeth lleol fel rhan o'i ymgyngoriad ar ei Gynllun Gweithredu	Chwefror 2017 – Byddwn yn datblygu cynllun cyfathrebu a fydd yn defnyddio'r holl sianelau i hysbysu'r cyhoedd yn well am y cyflyrau a'r gwasanaethau sydd ar gael ar eu cyfer. Swyddog(ion) Arweiniol – GMSI / SDM.

Healthcare Inspectorate Wales' Thematic Review of Ophthalmology 2015/16.

		ymwneud â chyflyrau llygaid mwy difrifol a phwysigrwydd cael cyngor gofal iechyd yn gyflym. Mae angen darparu rhagor o wybodaeth am y gwahanol wasanaethau/gweithwyr proffesiynol sydd ar gael i weld/trin cleifion o ran eu cyflyrau gofal iechyd.	Offthalmoleg Integredig newydd ar gyfer 2017/18.	
--	--	---	---	--